Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
SSPP06

Ymchwiliad byr i bolisi ar amddiffyn plant rhag yr haul mewn ysgolion

Tystiolaeth gan Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

# Ymchwiliad Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc: Amddiffyn plant rhag yr haul

Mawrth 2012

**UCAC** | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.athrawon.com

**Ymchwiliad Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru:**
**Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag yr Haul**

Mae Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Mae UCAC yn cynrychioli 5,000 o athrawon, penaethiaid a darlithwyr ym mhob sector addysg yng Nghymru.

1. **A yw'r polisïau a'r canllawiau presennol ar gyfer ysgolion ar amddiffyn plant rhag yr haul yn effeithiol o ran eu hamddiffyn rhag yr haul, ac, os nad ydynt, lle y mae angen gwella?**

   Fel arfer, dim ond am gyfnodau byr y bydd plant allan yn yr haul, yn ystod eu cyfnodau egwyl. Serch hynny, mae plant y Cyfnod Sylfaen, erbyn hyn, yn gallu bod yn treulio amser hirach tu allan i adeilad yr ysgol, ac mae tripiau ysgol a diwrnodau mabolgampau yn achlysuron eraill pan fydd posibilrwydd y bydd plant yn llygad yr haul am gyfnodau estynedig.

   Un elfen bwysig o bolisi sy'n ymdrin ag amddiffyn plant rhag yr haul, yw'r angen i addysgu'r plant ynghylch y peryglon a sut i amddiffyn eu hunain. Mae'n gymharol rhwydd mynd i'r afael â'r elfen hon ond byddai canllawiau neu gyfarwyddyd i ysgolion ynghylch yr angen i wneud, a sut i wneud, yn ddefnyddiol.

   Elfen bwysig arall, yw gallu ysgolion i ofyn i rieni ddarparu'n briodol ar gyfer eu plant ar adegau pan fydd y plant tu allan i'r ystafell ddosbarth am gyfnodau estynedig e.e. dillad addas megis hetiau, sbectol haul, dillad llewys hir, a rhoi eli haul ar y plant cyn cyrraedd yr ysgol.

   Y ddwy elfen fwyaf sensitif yw: (i) pwy yn union sydd â chyfrifoldeb dros beth (ii) y cyfrifoldeb o roi eli haul ar y plant. Byddwn yn ymdrin â'r materion hyn isod o dan gwestiwn (3).

2. **A oes digon o ymwybyddiaeth o'r polisïau a'r canllawiau presennol ar amddiffyn pobl rhag yr haul, ac, os nad oes, beth yw'r ffordd orau i godi ymwybyddiaeth?**

   Mae nifer cynyddol o ysgolion yn mabwysiadau polisi o’r fath ac mae model o bolisi ar gael. Mae'r Rhaglen Ysgol Iach wedi bod yn un ffordd o godi ymwybyddiaeth o'r mater, a'r polisi.

   Y ffordd orau o godi ymwybyddiaeth ymhellach fyddai i gylchredeg unrhyw ganllawiau yn uniongyrchol at:

   - Benaethiaid (gan gynnwys trwy Awdurdodau Lleol)
   - Gyrff Llywodraethu (gan gynnwys trwy Llywodraethwyr Cymru
   - Undebau athrawon

3. **A oes ffactorau sy'n rhwystro plant a phobl ifanc rhag defnyddio dulliau o amddiffyn eu hunain rhag yr haul mewn ysgolion, gan gynnwys eli haul, dillad addas, hetiau neu gysgod, er enghraifft o ran cost neu athrawon neu warchodwyr plant yn rhoi'r eli haul arnynt, ac, os felly, sut y gellid eu datrys?**

   Mae nifer o gwestiynau'n codi – meysydd sy'n aneglur, ac sy'n gallu achosi pryder a thrafferthion i athrawon.

   a) **Lefel cyfrifoldeb yr ysgol parthed dillad addas**

      Os yw rhieni wedi darparu dillad addas, mae hynny'n gychwyn da; serch hynny, beth yw hyd a lled cyfrifoldeb ysgol o ran gofalu/mynnu bod y plant yn gwisgo'r dillad hyn? Pwy sy'n gyfrifol os yw plentyn wedi mynd allan heb wisgo'n addas – yn fwriadol neu'n anfwriadol?

      Os nad yw rhieni wedi darparu dillad addas, beth yw cyfrifoldeb yr ysgol o ran ceisio'u darparu?

   b) **Lefel cyfrifoldeb yr ysgol dros eli haul**

      Mae'n llawer o help os yw rhieni wedi rhoi eli haul ar y plant cyn iddynt gyrraedd yr ysgol, ond nid yw hyn yn debygol o ddatrys y broblem yn llwyr am fod angen adnewyddu'r eli bob ychydig o oriau i barhau'n effeithiol.

Un cwestiwn sy'n codi yw: pwy sy'n darparu unrhyw eli ychwanegol sydd ei hangen – a oes cyfrifoldeb ar y rhieni, neu ar yr ysgol?

Ond mae'r cwestiynau fwyaf dwys a chymhleth yn codi mewn perthynas â chyfrifoldeb dros roi eli ar y plant. Dyma rai ystyriaethau:

- Yn amlwg, mae'n rhaid cyffwrdd â phlant i roi eli arnynt; yn gynyddol, cynghorir athrawon i gyffwrdd â phlant cyn lleied â phosib, er mwyn osgoi unrhyw gyhuddiadau o gam-drin neu gyffwrdd mewn modd anaddas; mae materion diogelwch plant yn faterion difrifol dros ben, ac mae cyhuddiadau o'r fath yn gallu dod â gyrfa athro i ben – hyd yn oed os yw'n ddi-sail
- Mae rhai rhieni'n gwrthwynebu'r defnydd o eli haul, am amryw o resymau
- Gall bod gan rai plant alergedd i (rai mathau o) eli haul
- Rhaid ystyried hylendid o fynd o un plentyn i'r llall, yn enwedig os oes aflwydd ar y croen

O safbwynt athrawon, mi fyddai'n ddefnyddiol dros ben cael eglurder ar y materion hyn. Rydym yn pwyso ar y Pwyllgor, os ydynt yn ystyried llunio neu argymell unrhyw bolisi neu ganllawiau newydd, i fynd i'r afael â'r materion hyn er mwyn i staff ysgol wybod beth yw hyd a lled eu cyfrifoldebau.



**UCAC**
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com

www.athrawon.com